## (7) Cwyn am yr Heddlu

Cyrhaeddais Neuadd y Ddinas Abertawe tua 1pm. Cerddais gyda'r orymdaith tuag at y Cae Rygbi ac aeth yr orymdaith yn ei blaen yn drefnus. Wrth i'r orymdaith ddod i ben y tu allan i'r maes Rygbi, ffurfiodd llinell o heddlu ar gyrion y protestwyr. Roedd llawer o wthio ar y naill ochr a'r llall. Cefais fy nhynnu allan o'r dorf, yn afresymol, wrth fy ngwallt. Yna cefais fy nghipio gan griw o blismyn a oedd yn fy nghario wrth fy nghoesau a'm gwallt a ches i fy nghludo cryn bellter i fyny'r ffordd. Yna, fe'm gollyngwyd i'r llawr a derbyniais giciau gan heddweision gwahanol yn fy ngwyneb a fy nghorff. Er mwyn amddiffyn fy wyneb a'm stumog cyrliais i fyny mewn pêl, yna gwaeddodd yr heddlu arnaf i sefyll. Dywedais "Fe godaf os gadewch i mi. Stopiwch gicio. A'i democratiaeth ydy hyn. Gadewch lonydd i mi os gwelwch yn dda!" Dechreuais godi o'r llawr a chafodd fy nghoesau eu cicio oddi tanaf. Ces i fy nghicio eto gan blismyn a wnaeth fy nghodi a'm cario tuag at griw o gefnogwyr Rygbi oedd yn gweiddi ar y palmant. Y rhain, dwi'n credu, oedd yr unig dystion. Sicrhaodd yr heddlu na welodd neb y trais trwy fy nghario o'r protestwyr arall a thrwy ffurfio cylch o fy amgylch. Gwelais bobl eraill yn cael eu hymosod yn yr un modd. RWY'N GADDO FOD HYN YN WIR.

## (8) Cwyn am yr Heddlu

Ymosododd yr heddlu arnaf ar o leiaf dau achlysur. Y tro cyntaf ges i fy llusgo ar draws Ffordd y Mwmbwls gerfydd fy ngwallt gan gwnstabl. Wrth gael fy nghipio allan o'r dyrfa. Cefais fy nghicio + dyrnu gan nifer o brotestwyr (roedd cyd-fyfyriwr (*golygu*) yn dyst i hyn).

Yr ail dro oedd pan ruthrodd yr heddlu i glirio protestwyr oddi ar y ffordd. Cefais fy nharo yn fy wyneb gan PC (*golygu*) ar ôl i mi fynd oddi ar y ffordd, ni wnes i unrhyw ymgais i ymosod ar y PC.

## (20) Cwyn am yr Heddlu

Roedd torf yn sefyll ar y ffordd ac yn sydyn fe ruthrodd llinell o heddlu atom ni. Roedden nhw wedi cysylltu eu breichiau. Syrthiodd merch drosodd a rhedodd yr heddlu i mewn iddi, plygodd berson ifanc i lawr i geisio ei chodi, cafodd ei wthio i'r llawr gan yr heddlu. Ciciodd rhif plismon (*golygu*) ef yn y cefn o leiaf 4 gwaith. Llwyddodd y person i godi ar ei draed a dianc.

[*Trawsgrifiad Saesneg ar y dudalen nesaf | English transcription on the next page*]

## (7) Police Complaint

I arrived at Swansea Guildhall at approximately 1pm. I moved off with the procession towards the Rugby Ground and the march proceeded in an orderly fashion. As the procession halted outside the Rugby ground, a cordon of police formed on the periphery of the demonstrators. There was much pushing on either side. I was pulled out of the crowd, quite arbitrarily, by my hair. I was then seized by a group of policemen who carried me by my legs and hair and was carried a distance up the road. Thereupon I was dropped to the ground and received kicks from various policemen in the face and body. I curled up to protect my face and stomach, whereupon the police shouted for me to stand up. I said "I will stand up if you let me. Stop kicking. Do you call this democracy. Please leave me alone!" I raised myself partially from the ground and my legs were kicked from beneath me. I again was kicked by policemen who then picked me up and carried me to a group of Rugby supporters who were jeering on the pavement. These, I believe, were the only witnesses. The police ensured that no-one saw the violence by carrying me from the demonstration and by forming a ring about my person. I also saw other people similarly assaulted. I SWEAR THIS IS TRUE

## (8) Police Complaint

I was assaulted by police on at least two occasions. The first time I was dragged across the Mumbles Road by my hair by a constable. While being hailed out of the crowd. I was kicked + punched by several demonstrators (this was witnessed by (*redacted*), a fellow student).

The second time was during a police charge to clear demonstrator off the road. I was hit in the face by PC (*redacted*) after I was off the road, I made no attempt to attack the said PC.

## (20) Police Complaint

A crowd was standing on the road and suddenly a line of police charged against us. They had linked arms. A girl fell over and the police ran into her, a young person bent down to try to lift her up, he was pushed to the ground by the police. Policeman number (*redacted*) kicked him in the back at least 4 times. The person managed to get to his feet and got away.